# Disgrifiad Swydd Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Ymchwil a pholisi** |
| **Band cyflog:** | **Band 2** |
| **Ystod cyflog:**<br>**(pro rata)** | **£33,233 - £42,727**<br>Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Ymchwilydd i'r Grŵp** |
| **Cyfeirnod:** | **MBS-089-26** |
| **Swyddfa:** | **Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Noder: efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio y tu allan i'r oriau gwaith arferol. |
| **Natur y penodiad:** | **Parhaol**<br>Noder: os bydd Arweinydd y Grŵp yn newid, neu os bydd nifer Aelodau'r Grŵp yn newid, mae'n bosibl y daw'r swydd hon i ben. |
| **Lleoliad:** | **Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**<br>Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd deithio i wneud gwaith o bryd i'w gilydd. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn: hil, rhywedd, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran. |
| Er gwybodaeth, bydd y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Gwybodaeth am y rôl

| Ymchwil a pholisi |
|---|
| Mae deiliaid swyddi Polisi ac Ymchwil yn gyfrifol am wneud gwaith ymchwil neu ddadansoddi ar faterion penodol, neu amrywiaeth o faterion, er mwyn rhoi gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau neu'r Grwpiau. Ar brydiau, bydd angen darparu argymhellion neu opsiynau pragmatig sy'n canolbwyntio ar weithredu ar gyfer ymdrin â'r mater dan sylw. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol i'r radd.<br><br>**Mae'r prif nodweddion fel a ganlyn:**<br>• Nodi canlyniadau ac effeithiau posibl drwy graffu ar waith Llywodraeth Cymru a chyrff eraill.<br>• Dadansoddi problemau, cynhyrchu opsiynau a gwerthuso.<br>• Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a llunio polisi.<br>• Gweithio mewn partneriaeth (yn fewnol ac yn allanol) i wneud gwaith ymchwil; dylanwadu ar ddogfennau polisi, strategaethau ac arferion gwaith; ac amlinellu goblygiadau dylanwadau allanol a thueddiadau fel datblygiadau mewn deddfwrfeydd eraill. |
| **Diben y swydd** |
| Bydd **Swyddog Polisi ac Ymchwil Band 2** sy'n gweithio i Aelod o'r Senedd yn ymgymryd â gwaith ymchwil polisi manwl, yn drafftio papurau briffio ac yn cefnogi gwaith deddfwriaethol. Bydd yn gweithredu fel cynghorydd i'r Aelod ar faterion polisi, yn helpu i lunio strategaethau gwleidyddol, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid. |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
|---|
| • Y gallu i reoli blaenoriaethau lluosog, gan gynnwys ymdrin â thasgau brys wrth gynnal ymchwil hirdymor.<br>• Ymwybyddiaeth wleidyddol a meddwl strategol, gyda dealltwriaeth o bolisïau'r blaid a phryderon etholaethau.<br>• Sgiliau o ran rheoli rhanddeiliaid ac ymgysylltu'n effeithiol â sefydliadau allanol ac arbenigwyr polisi.<br>• Hyfedredd o ran defnyddio'r offer a'r cyfarpar arferol ar gyfer y swydd – er enghraifft, pecynnau meddalwedd safonol – a phrofiad o ddefnyddio cyfryngau ar-lein mewn cyd-destun gwaith.<br>• Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig datblygedig iawn, er mwyn gallu cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol.<br>• Dealltwriaeth o'r angen i frwydro yn erbyn gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r materion hyn.<br>• Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Dealltwriaeth gref o'r gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu o'u mewn. Mae hyn yn cynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati), yn ogystal â fframweithiau ehangach a chyffredinol, a'r gallu i ddarparu cyngor gwybodus i'r Aelod a chydweithwyr ar y materion hyn.<br>• Sgiliau dadansoddi ac ymchwil cryf, gyda'r gallu i ddehongli deddfwriaeth a data cymhleth.<br>• Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gyda'r gallu amlwg i lunio adroddiadau a phapurau briffio clir ac argyhoeddiadol.<br>• Dealltwriaeth o brosesau gwleidyddol a phrosesau'r Senedd gan gynnwys gwaith llunio polisïau a gweithdrefnau deddfwriaethol.<br>• Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.<br>• Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.<br>• Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. |

| Meini prawf dymunol |
| --- |
| • Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.<br>• Yn arddel amcanion a gwerthoedd Plaid y Ceidwadwyr Cymreig.<br>• Trwydded yrru lawn, gyfredol y DU, ynghyd â mynediad at gerbyd sydd wedi'i yswirio at ddibenion gwaith. |
| **Cymwysterau** |
| • Y gallu i ddangos gwybodaeth neu brofiad o ystod o weithdrefnau gwaith yn seiliedig ar brofiad gwaith perthnasol a/neu gymhwyster galwedigaethol – e.e. NVQ lefel 3 neu 4 neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol.<br>• Tystiolaeth o sgiliau rhifedd a llythrennedd e.e. TGAU Saesneg / Cymraeg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol) Gradd C neu uwch, neu brofiad priodol arall. |
| **Sgiliau iaith** |
| • Dymunol: Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |

# Prif ddyletswyddau

| Gwaith dadansoddi polisïau ac ymchwil manwl |
| --- |
| • Gwneud gwaith ymchwil manwl ar ddeddfwriaeth, meysydd polisi a mentrau'r Llywodraeth.<br>• Drafftio briffiau, adroddiadau a dadansoddiadau polisi cynhwysfawr.<br>• Nodi tueddiadau a thynnu sylw at faterion allweddol a allai effeithio ar yr etholaeth neu'r agenda wleidyddol.<br>• Darparu cymorth ymchwil ar gyfer dadleuon, pwyllgorau ac ymgynghoriadau’r Senedd. |
| **Gwaith deddfwriaethol a seneddol** |
| • Drafftio a chyflwyno cwestiynau, cynigion, areithiau a gwelliannau ar gyfer y Senedd.<br>• Monitro Biliau, papurau ac adroddiadau pwyllgorau, gan grynhoi’r pwyntiau allweddol.<br>• Cefnogi Arweinydd a Llefarwyr Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig wrth iddynt baratoi ar gyfer dadleuon, cyfarfodydd pwyllgor a chyfarfodydd gyda Gweinidogion. |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn allanol** |
| • Cysylltu â melinau trafod, elusennau, grwpiau eiriolaeth a busnesau i gasglu gwybodaeth gan arbenigwyr.<br>• Meithrin a chynnal perthnasoedd ag arbenigwyr polisi, gweision sifil a sefydliadau lleol.<br>• Drafftio ymatebion i ymholiadau sy'n ymwneud â pholisi gan etholwyr, grwpiau ymgyrchu a’r cyfryngau. |
| **Arwain tîm** |
| • Gall oruchwylio neu gydlynu staff iau neu interniaid i sicrhau allbwn ymchwil o safon.<br>• Cynorthwyo gwaith i reoli gohebiaeth sy'n ymwneud â pholisïau o fewn y swyddfa.<br>• Sicrhau bod yr holl waith sy'n gysylltiedig â pholisïau yn cyd-fynd â safbwynt Plaid y Ceidwadwyr Cymreig a blaenoriaethau seneddol.<br>• Cynllunio a rheoli ei lwyth gwaith ei hun yn unol â gofynion Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig.<br>• Gwneud penderfyniadau o fewn canllawiau neu brotocolau. |
| **Rhwymedigaethau yn y gweithle** |

**Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:**

- Cefnogi a chynghori Aelodau o Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Iechyd, diogelwch a llesiant:**

- Cefnogi a chynghori Aelodau o Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Diogelu:**

- Cefnogi a chynghori Aelodau o Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Materion eraill**

- Gweithredu o fewn y gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau'n gweithredu o'u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).
- Cyflawni dyletswyddau eraill yn ôl yr angen i gefnogi Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig.